# Trefniadau Llwyrgloi'r Ysgol

## Cynllun Gweithredu Diogelwch yr Ysgol

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r camau i'w cymryd i gefnogi diogeled a diogelwch yn Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys os bydd bygythiad sylweddol i ddiogelwch staff, disgyblion ac ymwelwyr.

Dylai pob aelod o staff ei darllen a'i deall a'i chyfathrebu i ymwelwyr fel y bo'n briodol

Y prif feysydd y rhoddir sylw iddynt yn y ddogfen yw:

- Llwyrgloi (Llawn a Rhannol)
- Cau i Mewn/Gwacáu
- Ymosodiad sy'n defnyddio arfau neu ddrylliau
- Post neu Barseli Amheus
- Eitemau Amheus
- Cerbydau Amheus
- Cyfathrebu a Hyfforddiant
- Diogeledd integredig

Mae cynlluniau diogeled effeithiol yn syml, yn glir ac yn hyblyg, ond mae'n rhaid iddynt fod yn gydnaws ag unrhyw gynlluniau sy'n bod eisoes h.y. strategaethau diogelwch tân.

Rhaid i bawb fod yn glir ynghylch yr hyn sydd angen iddynt ei wneud mewn digwyddiad penodol.

Mae'n bwysig fod ymwelwyr â'r ysgol h.y. nwyddau yn gwybod am weithdrefnau cau i mewn, gwacáu a llwyrgloi rhag ofn iddynt gael eu defnyddio yn ystod eu hymweliad â'r ysgol.

## Gweithdrefnau Llwyrgloi

Bydd y gweithdrefnau hyn yn rhoi'r gallu i'n hysgol gyfyngu'n gyflym ar fynediad i mewn ac allan o'r safle neu adeilad trwy gamau ffisegol i ymateb i fygythiad. Nod y weithdrefn llwyrgloi yw rhwystro pobl rhag symud i mewn i ardaloedd peryglus yr ysgol neu atal/llesteirio'r ymosodwyr rhag dod i mewn i'r safle (neu ran ohono). Gall y bygythiad cychwynnol fod o'r tu fewn neu'r tu allan i'r ysgol.

Mae tair sefyllfa o fygythiad posib fydd yn gorfodi'r ysgol i fynd mewn i sefyllfa llwyrgloi:

- Bygythiad o'r tu allan i'r ysgol
- Bygythiad o'r tu fewn i'r ysgol
- Bygythiad yng nghyffiniau'r ysgol

Bydd y rhan hon o'r ddogfen yn edrych ar ddewisiadau Llwyrgloi Llawn a Rhannol.

- ❖ Mewn sefyllfa llwyrgloi rhannol dylai staff a disgyblion aros yn adeilad yr ysgol a dylid cloi pob drws sy'n agor yn uniongyrchol i'r tu allan. Ni ddylid gadael i neb ddod i mewn nac allan o'r adeilad; fodd bynnag, gall addysgu a gwaith barhau fel arfer. (Gan ddibynnu ar y bygythiad). Mewn sefyllfa llwyrgloi rhannol nid yw drysau ystafelloedd unigol yn cael eu cau fel arfer a gall disgyblion a staff wneud eu gwaith arferol o fewn yr ystafelloedd, er y gellir cyfyngu neu atal symud o gwmpas yr ysgol.

- ❖ Mae sefyllfa llwyrgloi llawn yn arwydd o fod mewn perygl ar y pryd a gall fod yn gam i fyny o lwyrgloi rhannol. Nod llwyrgloi llawn yw bod yr ysgol gyfan a'i hystafelloedd yn ddiogel a'i bod yn ail yn ymddangos yn wag.

## Cynllun Wrth Gefn

Ni fydd yr ysgol yn ymateb yn syth i larwm tân os yw'n seinio yn ystod sefyllfa llwyrgloi gan y gall fod yn ystryw gan dresmaswr arfog.

Dylai'r staff a disgyblion aros yn dawel yn eu hardal llwyrgloi os yw'n ddiogel gwneud hynny a cheisio gwirio a seiniwyd y larwm tân gyda chyswllt ar y safle neu'r gwasanaethau brys.

Os yw tân yn cael ei gadarnhau, dilynwch weithdrefnau tân/gwacáu'r ysgol.

# CYNLLUN LLWYRGLOI

*(gweler Atodiad 3 yn Nogfen Ganllawiau 2 am ganllawiau ar gwblhau'r Cynllun hwn)*

| ***Meysydd allweddol*** | ***Cynllun Llwyrgloi*** |
|---|---|
| ***Sut fydd yr ysgol yn rhoi gwybod i staff fod llwyrgloi yn digwydd*?** | Mae'r ysgol wedi derbyn system ffonau newydd sy'n galluogi aelod o staff i weithredu larwm llwyrgloi o ystafell y staff. Bydd y larwm yn rhoi gwybod yn glir i'r holl staff fod angen gweithredu trefniadau llwyrgloi.<br><br>Gan fod y system newydd ei gosod, bydd y drefn yn cael ei hymarfer yn ystod Hydref 2026 er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn gyfarwydd â'r system a'i gweithrediad, a bod pawb yn gwybod sut i ymateb pe bai angen llwyrgloi.<br><br>Yn y cyfamser, mae'r staff wedi cytuno y bydd aelod o staff yn cyhoeddi'r gair **"Lockdown"** yn glir er mwyn sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch yr angen i weithredu'r trefniadau llwyrgloi.<br><br>Bydd aelod o staff yn defnyddio'r system gyfathrebu o ystafell y staff lle bo hynny'n briodol. Os nad yw hynny'n ymarferol neu os oes angen gweithredu ar unwaith, bydd y gair **"Lockdown"** yn cael ei gyhoeddi ar lafar.<br><br>Gan mai ysgol fach yw hon, mae cyfathrebu uniongyrchol ac ar lafar yn ffordd effeithiol o sicrhau bod pob aelod o staff yn cael gwybod yn brydlon ac yn gallu gweithredu'r trefniadau angenrheidiol. |
| ***Sut fydd y Gwasanaethau Brys yn cael gwybod bod llwyrgloi yn digwydd?*** | Mae ffôn ar gael ym mhob dosbarth yn yr ysgol, ynghyd â ffôn symudol argyfwng ym mhob dosbarth, er mwyn sicrhau bod modd cysylltu â'r gwasanaethau brys yn brydlon os bydd angen.<br><br>Os bydd angen gweithredu trefniadau llwyrgloi, bydd y Pennaeth neu'r Pennaeth Cynorthwyol yn ffonio'r Heddlu ar unwaith i roi gwybod am y sefyllfa a nodi'n glir natur y perygl.<br><br>Mae rhifau ffôn cyswllt ar gyfer gwasanaethau brys ar gael ym mhob dosbarth ac yn ystafell y staff, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol ar gael yn syth os bydd angen.<br><br>Bydd blaenoriaeth bob amser yn cael ei rhoi i ddiogelwch y disgyblion a'r staff, a bydd yr ysgol yn cydweithio'n llawn â'r gwasanaethau brys ac â'r Awdurdod Lleol yn ystod unrhyw ddigwyddiad. |

| | |
|---|---|
| ***Sut fydd Uwch Reolwyr Gwasanaeth Ysgolion Cyngor Sir Ceredigion yn cael gwybod bod llwyrgloi yn digwydd?*** | Bydd y Pennaeth yn sicrhau dod yr Awdurdod Lleol (ALI) yn cael gwybod am y digwyddiad, drwy gysylltu â'r Swyddfa Addysg drwy e-bost neu dros y ffôn, fel sy'n briodol.<br><br>argyfwngysgol@ceredigion.gov.uk<br><br>schoolemergency@ceredigion.gov.uk |

<table>
<tr>
<td rowspan="8">Nodwch a rhestrwch yr holl fynedfeydd ac allanfeydd mewn rhannau cyhoeddus a phreifat o'r ysgol y bydd angen eu diogelu a phwy fydd yn gyfrifol.<br>Gall mynedfeydd gynnwys drysau allanol, ffenestri a gatiau</td>
<td colspan="3">Mynedfeydd ac Allanfeydd yr Ysgol<br>Mae'r holl fynedfeydd ac allanfeydd cyhoeddus a phreifat yn yr ysgol wedi'u nodi isod, ynghyd â'r trefniadau ar gyfer eu diogelu a'r aelod o staff sy'n gyfrifol amdanynt yn ystod argyfwng.</td>
</tr>
<tr><td>Mynedfa / Ardal</td><td>Trefniadau diogelwch</td><td>Person cyfrifol</td></tr>
<tr><td>Giât allanol</td><td>Cedwir y giât ar glo bob amser ac mae angen cod i'w hagor.</td><td>Pawb yn unol â threfniadau'r ysgol.</td></tr>
<tr><td>Prif fynedfa'r ysgol</td><td>Cedwir y brif fynedfa ar glo bob amser.</td><td>Pawb</td></tr>
<tr><td>Toiledau</td><td>Sicrhau nad oes unrhyw ddisgyblion nac aelodau o staff yn y toiledau yn ystod gweithdrefn llwyrgloi.</td><td>Fflur Griffiths neu Gynorthwyydd sy'n gweithio yn y Dosbarth Dysgu Sylfaen ar y pryd, gan ei bod yn gweithio'n rhan-amser.</td></tr>
<tr><td>Mynedfa allanol y neuadd</td><td>Cedwir y drws ar glo bob amser.</td><td>Pawb</td></tr>
<tr><td>Prif fynedfa Dosbarth 1</td><td>Sicrhau bod y fynedfa wedi'i chloi yn ystod argyfwng, unwaith y bydd y disgyblion yn ddiogel yn y lloc llythrennedd.</td><td>Bethan James.</td></tr>
<tr><td>Caban</td><td>Mae un brif fynedfa. Bydd athrawes y dosbarth yn sicrhau bod y brif fynedfa a'r ail ddrws sy'n arwain i mewn i'r dosbarth wedi'u cloi.</td><td>Athrawes y dosbarth.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | **Gardd / ardal chwarae'r Caban** — Os yw disgyblion allan yn yr ardd pan fydd argyfwng yn digwydd, bydd yr aelod o staff yn asesu'r sefyllfa ac, os yw'n fwy diogel symud oddi wrth yr argyfwng, bydd yn arwain y disgyblion allan drwy giât allanol yr ardd ac ymlaen drwy'r cae. — **Aelod o staff sy'n goruchwylio'r disgyblion ar y pryd**.<br><br>Bydd staff yn defnyddio eu barn broffesiynol a'r wybodaeth sydd ar gael ar y pryd i benderfynu ar y camau mwyaf diogel i'w cymryd, gan roi diogelwch y disgyblion a'r staff yn gyntaf.<br>Bydd yr holl staff yn gyfrifol am fod yn ymwybodol o'r trefniadau hyn ac am sicrhau, lle bo hynny'n ddiogel ac yn ymarferol, fod drysau a mynedfeydd perthnasol wedi'u diogelu yn ystod digwyddiad llwyrgloi. |
| ***Nodwch pa mor gyflym y gallwch ddiogelu mynedfeydd ac allanfeydd a nodwch a rhestrwch pwy sy'n gyfrifol.*** | Bydd y Pennaeth a Phennaeth cynorthwyol yn arwain ond fydd pob aelod o staff yn gyfrifol am ddiogelwch y disgyblion oherwydd maint yr ysgol. Mae pawb yn ymwybodol o'r trefniadau. |
| ***Nodwch sut y byddwch yn cadarnhau bod y mynedfeydd ac allanfeydd uchod yn ddiogel*** | Pan fydd gweithdrefn llwyrgloi yn cael ei gweithredu, bydd staff yn cymryd camau ar unwaith i sicrhau bod eu hystafelloedd a'u hardaloedd yn ddiogel:<br><br>• Bydd staff yn **cloi drysau'r dosbarthiadau ar unwaith** ac yn cau'r llenni er mwyn lleihau gwelededd o'r tu allan.<br>• Lle bo'n ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny, bydd staff yn defnyddio **dodrefn i gryfhau'r drws** a rhwystro mynediad i'r ystafell.<br>• Bydd **Dosbarth 2** yn symud i '**Lloc Lles y Caban'**, gan fod mynediad i'r ardal hon yn golygu bod tri drws wedi'u cloi, gan ddarparu haenau ychwanegol o ddiogelwch.<br>• Bydd **Dosbarth 1** yn symud i **Lloc Llythrennedd allanol**, lle gellir cloi'r drws ac mae un pwynt mynediad yn unig. |

| | |
|---|---|
| | • Bydd staff yn cadarnhau bod yr holl ddisgyblion sydd yn eu gofal wedi cyrraedd yr ardal ddiogel ac, lle bo hynny'n bosibl, byddant yn gwirio bod y drysau perthnasol wedi'u cloi'n ddiogel.<br><br>Bydd staff yn parhau i fod yn effro i unrhyw newidiadau yn y sefyllfa ac yn dilyn cyfarwyddiadau'r gwasanaethau brys os byddant yn bresennol. Bydd diogelwch y disgyblion a'r staff yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth drwy gydol y digwyddiad. |

## Post neu Barseli Amheus

Os darganfyddir pecyn/amlen amheus dylech weithredu fel a ganlyn:

- Peidiwch agor yr amlen neu becyn
- Gadewch yr amlen neu becyn, gwacáu'r ystafell a rhwystro eraill rhag mynd mewn iddi
- Rhowch wybod i Dîm yr Uwch-arweinwyr a fydd wedyn yn cysylltu â'r heddlu
- Pecynnau gaiff eu hagor ac y gwelir eu bod yn cynnwys deunydd amheus:

  **Cyfyngu'r cysylltiad**

  - Caewch yr ystafell (drysau a ffenestri), peidiwch â gadael i unrhyw un ac eithrio staff gwasanaethau brys fynd i mewn
  - Peidiwch â glanhau deunyddiau amheus
  - Peidiwch â chyffwrdd eich llygaid, trwyn nac unrhyw ran o'ch corff
  - Golchwch eich dwylo yn drylwyr gyda sebon a dŵr
  - Os yw dillad wedi'i lygru peidiwch â'i frwsio i ffwrdd
  - Os yn bosib, diffoddwch system wresogi/aerdymheru/awyru'r adeilad
  - Gwnewch restr o'r holl bobl a gafodd gyswllt gwirioneddol â'r powdr (ar gyfer yr awdurdodau ymchwilio)
  - Rhowch wybod i Dîm yr Uwch-arweinwyr

## Eitem Amheus

Os cafodd eitem amheus ei darganfod, sef un sydd ddim yn edrych yn iawn, bag, gwarbac neu ces mewn lle anarferol, dylai staff geisio darganfod pwy yw perchennog yr eitem a gafodd ei gadael. Os na ddeuir o hyd i unrhyw berchennog, dylid defnyddio egwyddorion CAN.

**C**udd – h.y. wedi'i roi mewn lle anodd ei weld neu sy'n edrych yn anarferol
**A**mlwg – amheus oherwydd ei ymddangosiad ffisegol
**N**odweddiadol – ddim yn nodweddiadol o'r hyn y byddech yn disgwyl ei weld yn yr amgylchedd hwnnw

Efallai fod yr eitemau hyn yn cynnwys gwifrau allanol, batris gweladwy, switshys, amseryddion, byrddau cylched, wedi'i gau gyda thâp gludo plastig, anodiadau arni, blychau pren neu blastig wedi'u haddasu, yn cynnwys powdrau neu sylwedd tebyg i bwti, bagiau plastig wedi'u lapio'n ofalus.

Os credwch eu bod yn amheus – ffoniwch 999 a gofalwch fod staff a disgyblion yn cael eu symud o'r ardal. Dylai hynny fod o leiaf 500m i ffwrdd o'r eitem.

## Cerbydau Amheus

Os yw cerbyd a ddaeth i mewn i dir yr ysgol neu sydd wedi parcio ger yr ysgol yn cael ei ystyried yn amheus gan na ddylai fod wedi cael ei barcio yn y lleoliad hwnnw neu oherwydd ei fod yn edrych yn ddieithr yn yr ardal, neu ei bod yn ymddangos y bu yn y lleoliad am amser maith.

Yn y lle cyntaf bydd yr ysgol yn ceisio dod o hyd i berchennog neu yrrwr y cerbyd, ac os na ellir gwneud hynny byddant yn ffonio 999 ac yn rhoi'r holl fanylion sydd ar gael i'r heddlu.

O ran cerbydau amheus, dylid creu parth eithrio. Dylai'r parth hwn fod o leiaf 200m ar gyfer car ac ar gyfer fan dylai fod o leiaf 400m.

## Cyfathrebu a hyfforddiant

Mae'n hanfodol fod yr holl staff yn gwbl gyfarwydd â gweithredu'r cynllun diogeled hwn ac wedi cael hyfforddiant ar ei gyfer a'u bod yn cydymffurfio â'r holl drefniadau diogeled.

Ar gyfer unrhyw staff neu ddisgyblion nad ydynt yn yr ysgol pan geir digwyddiad o'r math yma, mae'n bwysig cael ffordd o roi gwybod iddynt am yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol ac i ble ddylent fynd yn y cyfamser.